**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Tachwedd 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn:  029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Tachwedd 2010

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chaiff ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 a 15.6.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn benodol yn Rheol Sefydlog 15. Mae y rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

## Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod y Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| William Graham | Plaid Geidwadol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |

# Cynnwys


**Rôl y Pwyllgor** .......... **5**

**Y Mesur Arfaethedig** .......... **5**

Cwmpas a diben .......... 5

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth .......... 5

Adran 1 .......... 5

Adran 3 .......... 6

Adran 4 .......... 6

Adran 5 .......... 7

Adran 7 .......... 7

**Materion sy'n codi o'r dystiolaeth a sylwadau'r Pwyllgor** .......... **7**

Cyffredinol .......... 7

Ystyried pwerau is-ddeddfwriaeth .......... 8

Casgliadau .......... 8

**Atodiad – Cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Aelod sy'n gyfrifol** .......... **9**

Gwahoddiad i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor .......... 9

Cyflwyniad ysgrifenedig yr Aelod sy'n gyfrifol .......... 10

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **16**

## Rôl y Pwyllgor

1. Caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiadau arnynt o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn nodi y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiadau ar '[b]a mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad…sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau ar ragoriaethau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn nodi y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiadau ar 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

## Y Mesur Arfaethedig

2. Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig gan Ann Jones AC ar 8 Gorffennaf 2010 fel Mesur Arfaethedig Aelod. Cafodd ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth 1 i gyflwyno adroddiad arno erbyn 12 Tachwedd 2010.

### Cwmpas a diben

3. Diben cyffredinol y Mesur arfaethedig yw cyflwyno gofyniad ar gyfer darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru.

4. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion er mwyn gweithredu a nodi'r manylder sydd ei angen ar gyfer ategu'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig.

### Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

#### *Adran 1*

5. Mae adran 1(1) yn sefydlu dyletswydd i ddarparu system llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru, a

bod y system yn gweithio'n effeithiol ac yn cydymffurfio â'r cyfryw ofynion ag a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

6. Mae **adran1(4)(c)** o'r Mesur arfaethedig yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r gofynion ar gyfer systemau llethu tân awtomatig y mae'n rhaid eu darparu. Byddai darpariaethau o'r fath yn nodi safonau technegol system o'r fath.

7. **Gweithdrefn:** Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 1(4)(c) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol.** Bydd y rheoliadau hyn o natur dechnegol ac o bosibl yn ymwneud â'r Safon Brydeinig neu'r Safon Ewropeaidd berthnasol. Efallai y bydd angen eu diwygio ar fyr rybudd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch. Felly, credir ei bod yn briodol eu bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

8. Mae'n werth nodi y bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon wedi'u gwneud ar ôl cyfnod o ymgynghori fel sy'n ofynnol yn adran 6(1)(d) o'r Mesur arfaethedig.

### *Adran 3*

9. Mae adran **3(2)(b)** yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i awdurdodau lleol ddangos y bydd y gwaith yn yr adeilad neu'r adeiladau dan sylw yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4).

10. **Gweithdrefn:** Bydd pwerau i wneud y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**. Mae natur dechnegol y wybodaeth a roir yn unol â gofynion y rheoliadau hyn yn eu gwneud yn briodol i fod yn agored i gael eu dirymu.

11. Yn rhinwedd adran 6(1)(d) o'r Mesur arfaethedig, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

### *Adran 4*

12. Mae'r adran hon yn nodi ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Mesur arfaethedig. Yn benodol, mae'n diffinio'r term "preswylfa".

13. Mae **adran 4(2)** yn darparu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o ystyr "preswylfa" yn adran 4(1) o'r Mesur arfaethedig. Gall unrhyw newid i'r diffiniad ddileu neu ychwanegu mathau eraill o

breswylfeydd nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd newydd sydd yn y Mesur arfaethedig ar hyn o bryd.

14. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 4(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol.**

***Adran 5***

15. Mae **adran 5(1)** yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio, diddymu neu fel arall addasu deddfiadau ac i wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol a darpariaeth sy'n angenrheidiol neu'n briodol i roi llwyr effaith i'r Mesur arfaethedig hwn. Gall deddfiadau gynnwys Deddfau Seneddol, Mesurau neu reoliadau.

16. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 5 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol.** Mae hyn yn unol â chonfensiwn sydd wedi'i sefydlu.

***Adran 7***

17. Mae'r adran hon yn pennu'r darpariaethau cychwyn. Oni bai bod adran 7(1) a (2) yn darparu ar eu cyfer, bydd darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn dod i rym ar y cyfryw ddydd a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

18. Mae'n werth nodi na ddaw'r ddyletswydd a amlinellir yn adran 1(1), i ddarparu systemau llethu tân awtomatig, i rym nes bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau dilynol o dan adrannau 1(4)(c) a 3(2)(b).

19. **Gweithdrefn:** Yn unol â chonfensiwn sydd wedi'i sefydlu, nid oes unrhyw weithdrefn yn gymwys i wneud gorchymyn cychwyn.

## Materion sy'n codi o'r dystiolaeth a sylwadau'r Pwyllgor

### Cyffredinol

20. Cyflwynodd Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, a ystyriwyd gennym yn ein cyfarfod ar 6 Hydref. Ceir copi o'r cyflwyniad hwn yn yr Atodiad

i’r adroddiad hwn. O ganlyniad, gwnaethom gytuno i beidio â chasglu tystiolaeth lafar gan yr Aelod sy’n gyfrifol.

## Ystyried pwerau is-ddeddfwriaeth

21. Ar ôl ystyried y Mesur arfaethedig, a chyflwyniad ysgrifenedig yr Aelod sy’n gyfrifol i’r Pwyllgor, rydym wedi ein bodloni bod y Mesur yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng y pwerau sydd ar ei wyneb a’r pwerau is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru.

22. Rydym hefyd wedi ein bodloni nad yw’n ymddangos bod unrhyw ddarpariaethau anarferol ar gyfer pwerau dirprwyedig yn y Mesur arfaethedig. Pennir yr holl ddarpariaethau hyn gan ddefnyddio’r gweithdrefnau priodol ac y maent yn defnyddio’r pwerau a ragwelir mewn modd cymesur a rhesymol. Mae’n ymddangos hefyd fod gofyniad digonol ar gyfer ymgynghori â’r rheini yr effeithir arnynt, lle y bo hynny’n briodol.

## Casgliadau

23. O safbwynt y darpariaethau is-ddeddfwriaeth a geir yn y Mesur arfaethedig, nid yw’r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai’r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

# Atodiad – Cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Aelod sy'n gyfrifol

**Gwahoddiad i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.**

Ann Jones AC
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

22 Medi 2010

Annwyl Ann

**Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)**

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – 6 Hydref 2010**

O dan Reol Sefydlog 15.6, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiadau ar '[b]a mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig…sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol'. Yn unol â hyn, y mae'r Pwyllgor wedi dechrau craffu ar y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru).

Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Felly, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), i ddod i gyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ddydd Mercher 6 Medi 2010 i roi rhagor o wybodaeth am y Mesur arfaethedig.

Cyn y cyfarfod, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe gallech gyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig ar y Mesur arfaethedig, gan ateb y cwestiynau a ganlyn yn benodol:

1. Pa effaith y bydd y Mesur arfaethedig yn ei gael?

2. Pa bwerau sydd yn y Mesur arfaethedig i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth?
3. Pam yr ymdrinnir â'r materion hynny drwy bwerau galluogi yn hytrach nag ar wyneb y Mesur arfaethedig?
4. Pam y dewiswyd y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol ym mhob achos?
5. Sut y bydd y pwerau yn y Mesur arfaethedig yn effeithio ar y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn y maes hwn?
6. Sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r pwerau hyn?

A fyddech cystal ag anfon eich ymateb i'r materion hyn erbyn 27 Medi 2010?

Byddwn yn ddiolchgar pe bai eich swyddogion yn cydweithio ag Olga Lewis, Dirprwy Glerc y Pwyllgor (ffôn: 02920 898154), i drafod y trefniadau ymarferol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

**Janet Ryder AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Cyflwyniad ysgrifenedig yr Aelod sy'n gyfrifol**

**1. Pa effaith y bydd y Mesur arfaethedig yn ei gael?**

Mae'r Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd newydd sy'n golygu, pan fydd gwaith adeiladu yng Nghymru yn cael ei wneud, y mae'r Mesur yn berthnasol iddo, bydd yn rhaid i bob preswylfa newydd gael system llethu tân awtomatig sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd methu ag ateb y ddyletswydd newydd hon yn cyfateb i weithredu'n groes i'r rheoliadau adeiladu a bydd hyn yn ddarostyngedig i'r un camau gorfodi a fyddai'n berthnasol i fethiant o'r fath o dan Ddeddf Adeiladu 1984.

Mae'r Mesur yn gymwys i breswylfeydd newydd sy'n cael eu hadeiladu, y gwaith o addasu adeilad i greu un neu fwy o breswylfeydd newydd,

neu’r gwaith o rannu neu gyfuno preswylfeydd sy’n bodoli eisoes yn unig. Nid yw’n ei gwneud yn ofynnol i osod systemau llethu tân awtomatig mewn eiddo sy’n bodoli eisoes. Mae’r diffiniad o breswylfa yn cynnwys tai annedd, fflatiau, cartrefi gofal preswyl, ysgolion preswyl, colegau preswyl a neuaddau preswyl i fyfyrwyr. Mae’r Mesur hefyd yn gymwys i dai newydd amlfeddiannaeth ac ardaloedd cyffredin fel grisffyrdd mewn adeiladau sydd â mwy nag un breswylfa newydd.

**2. Pa bwerau sydd yn y Mesur arfaethedig i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth?**

Mae’r Mesur yn cynnwys y pwerau i Weinidogion Cymru:

a) gwneud rheoliadau sy’n rhagnodi’r gofynion y mae’n rhaid i’r system llethu tân awtomatig a ddarperir ym mhob preswylfa gydymffurfio â hwy (adran 1(4)(c));

b) gwneud rheoliadau sy’n rhagnodi’r wybodaeth (sy’n dangos bod modd i’r gwaith adeiladu arfaethedig, ar ôl iddo gael ei gwblhau, gydymffurfio â’r Mesur) y mae’n rhaid ei chynnwys â chynlluniau neu hysbysiad o’r gwaith arfaethedig a gyflwynir i awdurdod lleol (yn unol â’r rheoliadau adeiladu) (adran 3(2)(b));

c) diwygio’r diffiniad o “breswylfa” yn y Mesur, drwy orchymyn (adran 4(2));

d) gwneud, drwy orchymyn, y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall ag y maent o’r farn ei bod yn angenrheidiol neu’n briodol mewn cysylltiad â’r Mesur hwn neu i roi llwyr effaith iddo. (adran 5(2));

e) cychwyn darpariaethau gwreiddiol y Mesur drwy orchymyn (adran 7(3)).

**3. Pam yr ymdrinnir â’r materion hynny drwy bwerau galluogi yn hytrach nag ar wyneb y Mesur arfaethedig?**

Y rheoliadau sy'n rhagnodi'r gofynion ar gyfer systemau

Effaith y Mesur fydd ei gwneud yn ofynnol i systemau llethu tân awtomatig gael eu darparu mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru. Gellir cael sawl math o wahanol systemau llethu tân awtomatig, ac mae'r mathau sydd ar gael i'w gosod yn debygol o ddatblygu dros amser. Ar unrhyw adeg arbennig, bydd safonau wedi'u cymeradwyo gan y diwydiant ar gael a fydd yn darparu'r ffon fesur briodol ar gyfer barnu pa mor addas yw'r system arfaethedig. Pe bai'r safon bresennol yn cael ei chynnwys ar wyneb y Mesur, byddai'n cael ei disodli maes o law gan safon neu safonau wedi'u diwygio a byddai sicrhau bod y systemau sy'n cael eu gosod o dan y Mesur yn cydymffurfio â'r safon fwyaf diweddar yn golygu y byddai'n ofynnol diwygio'r Mesur.

Byddai cynnwys gofynion technegol ar wyneb y Mesur hefyd yn arwain at anawsterau ymarferol yn sgil y Gyfarwyddeb Safonau a Rheoliadau Technegol (98/34/EC), sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch deddfwriaeth arfaethedig sy'n gosod rheoliadau technegol a gwaharddiad o dri mis cyn dod â safonau o'r fath i rym, er mwyn galluogi'r Comisiwn i fodloni ei hun nad yw'r safon arfaethedig yn creu rhwystr technegol i fasnach.

Mae'r Gyfarwyddeb yn golygu, am resymau ymarferol, fod yn rhaid i ddeddfwriaeth sy'n gosod (neu'n diwygio) safonau technegol wneud hynny drwy ddirprwyo'r ddyletswydd o osod y safonau hynny i'r Gweinidogion, a fydd wedyn yn gallu drafftio rheoliadau, hysbysu'r Comisiwn yn ffurfiol (drwy Lywodraeth y DU), ymdrin ag unrhyw faterion y mae'r Comisiwn yn eu codi a dod â'r rheoliadau i rym ar ddiwedd y broses.

Rheoliadau sy'n rhagnodi gwybodaeth sy'n dangos bod y gwaith adeiladu arfaethedig yn gallu cydymffurfio â'r Mesur, wedi iddo gael ei gwblhau

Bwriedir i adran 3 o'r Mesur sicrhau y rhoddir digon o wybodaeth i'r awdurdod lleol cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau i'w alluogi i farnu a fydd y gwaith yn gallu cydymffurfio â gofynion y Mesur ar ôl iddo gael ei gwblhau. Mae union ffurf y wybodaeth honno (ee ffurf unrhyw ddarluniau neu dystysgrifau) yn fater technegol manwl sy'n galw am ymgynghori ag awdurdodau lleol, penseiri, cyflenwyr systemau llethu

tân awtomatig ac adeiladwyr, ac mae'r hyn sydd ei angen hefyd yn debygol o newid dros amser wrth i'r systemau ddatblygu.

Dim ond drwy ddirprwyo'r pŵer i'r Gweinidogion i'w weithredu drwy reoliadau y gellir rhagnodi'r wybodaeth a fydd yn rhaid ei darparu mewn modd hyblyg ac effeithiol.

Gorchmynion sy'n diwygio'r diffiniad o "breswylfa"

Mae darparu'r pŵer i'r diffiniad o "breswylfa" gael ei ddiwygio drwy orchymyn (y byddai'n rhaid i'r Cynulliad ei gymeradwyo ac a allai estyn y diffiniad o fewn cyfyngiadau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unig) yn mynd i'r afael â dau o anghenion.

Y cyntaf yw'r posibilrwydd y bydd defnyddio'r diffiniad presennol o breswylfa, o dan y ddeddfwriaeth hon sy'n torri tir newydd, yn amlygu amwyseddau neu anawsterau na ragwelwyd. Bydd y pŵer yn galluogi'r materion hyn i gael sylw heb fod angen diwygio'r Mesur.

Yr ail angen yw darparu'r dewis, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, i ehangu'r diffiniad o breswylfa i gynnwys categorïau ychwanegol o fangreoedd preswyl newydd.

Gorchmynion sy'n gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ganlyniadol etc

Er mwyn dod â'r Mesur i rym mewn ffordd effeithiol, efallai y bydd angen, er enghraifft, gwneud addasiadau dros dro i sut y mae'r darpariaethau statudol presennol, neu fân ddiwygiadau i ddarpariaethau o'r fath, hyd yn oed, yn cael eu gweithredu. Mae'n amhosibl barnu o flaen llaw i ba raddau y bydd angen gwneud addasiadau o'r fath ac felly, yn unol â'r arfer cyffredin, mae'n synhwyrol rhoi'r pŵer i'r Gweinidogion wneud hynny mewn ffordd hyblyg, drwy orchymyn.

Gorchmynion cychwyn

Ni all y Mesur ddod i rym yn effeithiol nes y caiff y safonau technegol angenrheidiol eu gosod (gweler uchod) ac felly mae'n angenrheidiol dirprwyo'r pŵer i ddod â'i ddarpariaethau gwreiddiol i rym i'w dirprwyo i'r Gweinidogion.

**4. Pam y dewiswyd y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol ym mhob achos?**

Mae'r egwyddor a ddefnyddiwyd i ddewis y gweithdrefnau perthnasol yn dilyn arferion cyffredin.

Nid yw'r rheoliadau sy'n ymdrin â materion technegol y gofynion sy'n berthnasol i systemau llethu tân a'r wybodaeth a roddir i awdurdodau lleol yn codi unrhyw faterion o egwyddor ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Yr un yw'r sefyllfa mewn perthynas â gorchmynion trosiannol a gorchmynion canlyniadol (etc) (ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt isod) sydd, eto, yn ymdrin ag agweddau ymarferol a chyfreithiol o ddod â'r Mesur i rym.

Yr eithriad mewn perthynas â gorchmynion o'r fath yw y byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os byddant yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan ei bod yn gywir cadw'r pŵer hwn i'r Cynulliad ei hun.

Yn yr un modd, mae'r pŵer i ddiwygio'r diffiniad o "breswylfa" yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol fel bod y Cynulliad yn cadw rheolaeth dros ddarpariaethau'r Mesur ei hun.

Yn olaf, nid yw gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad gan eu bod ond yn dod â deddfwriaeth i rym y mae'r Cynulliad eisoes wedi'i chymeradwyo.

**5. Sut y bydd y pwerau yn y Mesur arfaethedig yn effeithio ar y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn y maes hwn?**

Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau yn y maes hwn ar hyn o bryd, er bod y pwerau mewn perthynas â rheoliadau adeiladu (sydd â chysylltiad agos â phwnc y Mesur) yn y broses o gael eu trosglwyddo iddynt o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009. Fodd bynnag, nid yw'r Gorchymyn hwnnw'n dod i rym tan 31 Rhagfyr 2011.

Mae darpariaeth yn adran 1(3) o'r Mesur ar gyfer y posibilrwydd y gall rheoliadau o'r fath yn y dyfodol (ar ôl i bwerau'r rheoliad adeiladu gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru) osod gofynion tebyg, a fyddai'n osgoi unrhyw ddyblygu.

**6. Sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r pwerau hyn?**

Mae ymateb ysgrifenedig y Gweinidog i Bwyllgor Deddfwriaeth 1 ar y Mesur arfaethedig, dyddiedig 8 Medi 2010, yn datgan:

> The Measure, as currently drafted, confers a range of delegated powers on the Welsh Ministers. These powers include a power to prescribe the requirements for automatic fire suppression systems (section 1(4)(c); a power to make transitional and consequential provisions in connection with, or to give full effect to, the Measure (section 5) and some commencement powers (section 7). The exercise of these powers would need to be exercised reasonably following consideration of the latest available evidence as to costs and benefits.

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

24. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) | CA(3)-22-10(p4) |
| Y Memorandwm Esboniadol | CA(3)-22-10(p5) |
| Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-22-10(p6) |
| Llythyr gan y Cadeirydd at Ann Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig | CA(3)-22-10(p7) |
| Ymateb Ann Jones AC | CA(3)-22-10(p8) |